# Esboniadau - Ethnigrwydd


## Cefndir

Mae'r esboniadau a ddefnyddir i egluro anghydraddoldebau ethnig ym maes iechyd yn ymwneud yn bennaf â materion diwylliannol/ymddygiadol o gymharu â materol ond gyda dimensiwn hiliaeth ychwanegol. Gweler gwaith Nazroo a Karlsen (2013).

Yn yr un modd â rhywedd, mae'n bwysig gallu gwahaniaethu rhwng gwahanol grwpiau ethnig, gan gynnwys y grŵp gwyn mwyafrifol. Mae cynifer o wahaniaethau iechyd o fewn grwpiau ethnig ag sydd rhyngddynt.

Mae Ahmed (1993) yn dadlau yn hanesyddol y bu'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil a'r esboniadau am anghydraddoldebau iechyd o safbwynt y model biofeddygol.

Gwnaed rhai esboniadau biolegol ac mae'r tabl isod yn nodi rhai gwahaniaethau. Ond ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod mwy o nodweddion tebyg rhwng morbidrwydd a marwolaeth o fewn gwahanol grwpiau ethnig na gwahaniaethau.




Methu olrhain hawlfraint, cysylltwch â ni os ydych yn ddeiliad yr hawlfraint

Mae'r wefan ganlynol yn ddefnyddiol er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

https://patient.info/doctor/diseases-and-different-ethnic-groups

# Esboniadau - Ethnigrwydd

Esboniadau diwylliannol o gymharu ag esboniadau materol o anghydraddoldebau ethnig ym maes iechyd.

## Tasg 1: Diwylliannol a materol

Gan ddefnyddio gwerslyfrau, erthyglau a'r rhyngrwyd, gwerthuswch yr esboniadau diwylliannol a materol o anghydraddoldebau ethnig ym maes iechyd.

1. Nodwch 5/6 chymdeithasegydd perthnasol mewn perthynas ag esboniadau diwylliannol a materol o anghydraddoldebau ethnig ym maes iechyd.
2. Gwerthuswch 5/6 chysyniad ar gyfer esboniadau diwylliannol a materol o anghydraddoldebau ethnig ym maes iechyd.

## Tasg 2: Hiliaeth fel esboniad

Ysgrifennwch grynodeb o waith Nazroo a Karlsen (2013) ac o waith ymchwil Nettleton (1995)

**Awgrym:** Fel gydag unrhyw gwestiwn ar ddosbarth neu rywedd, byddai'n ddefnyddiol wrth werthuso i gyflwyno sylwadau ar y gydberthynas rhwng y tri, sef y croesdoriadedd sy'n bodoli.

© WJEC CBAC LTD 2017